



# DEFNYDD DIOGEL O DEGANAU GWYNT CANLLAW I FUDIADAU BYCHAIN AC AELODAU'R CYHOEDD



**Llogi dyfeisiadau diddanu chwythadwy gan drydydd parti**  
Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio cwmni dibynadwy pan fyddwch yn llogi dyfais ddiddanu chwythadwy. Bwriwch olwg ar adolygiadau o'r cwmni, mynnwch air ag eraill sydd wedi eu defnyddio, gwiriwch fod y cwmni yn aelod o gymdeithas fasnach neu broffesiynol llogi teganau gwynt (e.e. BIHA). Cyn archebu, dylech ofyn y cwestiynau isod a derbyn atebion boddhaol.

## Oes gan y tegan gwynt dystysgrif brawf ddilys a chyfoes, ac a oes ganddo dag PIPA?

Gwnewch yn siŵr fod gan y tegan gwynt yr ydych yn ei logi dag PIPA wedi ei arddangos mewn man amlwg (gweler y llun) neu 'Ddatganiad Cydymffurfio Gweithredol' a gyhoeddwyd gan ADIPS (Cynllun Gweithdrefn Archwilio Dyfeisiadau Diddanu). Rhoddir tag PIPA neu DOC ar ôl i'r cyfarpar gael ei archwilio'n drylwyr. Mae gan y tag PIPA rif arno y gellir ei wirio ar wefan PIPA ([pipa.org.uk](http://pipa.org.uk)) i weld pryd yr archwiliwyd y tegan gwynt ddiwethaf. Ychydig funudau'n unig a gymer i wirio.



## Oes gan y cwmni llogi yswiriant dilys?

Rhaid bod gan bob gweithredwr dyfeisiadau chwythadwy sy'n llogi cyfarpar yswiriant addas a digonol, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am o leiaf £5 miliwn. Dylent allu dangos eu tystysgrif i chi adeg archebu neu gyflwyno. Fel cwsmer, nid oes rheidrwydd dan y gyfraith i chi gymryd eich yswiriant eich hun, ond efallai y byddai'n well gennych gymryd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus rhag ofn i chi gael eich dal yn gyfrifol am anaf unrhyw un. Gall hyn eisoes fod yn rhan o'ch polisi yswiriant cartref, felly bwriwch olwg ar eich dogfennau ymlaen llaw.

## A yw'r cwmni llogi wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant ffurfiol?

Mae hyfforddiant ffurfiol a ddarperir gan fudiad megis Cofrestr Ryngwladol Archwilwyr Chwarae (RPII) yn dangos bod y cwmni llogi yn fedrus ac yn gwybod sut i reoli a gweithredu cyfarpar chwarae chwythadwy yn ddiogel. Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.pipa.org.uk/files/BounceSafeLeaflet.pdf](http://www.pipa.org.uk/files/BounceSafeLeaflet.pdf)

## A yw'r cyfarpar wedi ei lanhau a'i ddiheintio?

Gofynnwch am fanylion am lanhau ac a ddefnyddiwyd y tegan mewn digwyddiad arall cyn ei roi i chi. Dylai'r ddyfais ddiddanu chwythadwy gael ei glanhau a'i diheintio yn drwyadl cyn ei chyflwyno i chi ar gyfer eich archeb.

# Beth i'w wneud ar y diwrnod

Wrth logi dyfais chwythadwy, chi sydd yn gyfrifol am ddiogelwch eich gwesteion ar y tegan wedi i'r gweithredwr adael. Cyn defnyddio'r tegan gwynt, gofynnwch y cwestiynau isod i chi'ch hun er mwyn gwneud yn siŵr bod eich gwesteion yn cael profiad diogel a phleserus.

## A yw'r tywydd yn addas i ddefnyddio teganau gwynt yn ddiogel?

Ni ddylai'r tegan gwynt gael ei osod i fyny os yw'r tywydd yn rhy wyntog neu'n rhy wlyb gan y gallai'r ddyfais chwythu ymaith neu beri i bobl lithro. Ni ddylai cyflymder y gwynt fod yn uwch na Grym 5 ar raddfa Beaufort (24 mya neu 38 km/a) sef pryd mae dail ar goed bychain yn dechrau siglo. Dylai'r gweithredwr fod wedi gwirio rhagolygon y tywydd a mesur cyflymder y gwynt gydag anemometr (dangosydd cyflymder gwynt) cyn gosod y tegan gwynt i fyny. Dylech hefyd weld a yw cyflymder y gwynt yn debygol o gynyddu yn ystod eich digwyddiad. Os yw'r tywydd yn boeth iawn, dylid gosod y tegan gwynt i fyny yn y cysgod, lle bo modd.

## A osodwyd y cyfarpar i fyny'n gywir?

Rhaid i'r tegan gwynt gael ei osod i fyny ar dir gweddol wastad a'i angori i lawr yn gywir gan ddefnyddio'r holl bwyntiau angori a ddarperir. Mae gan bob tegan gwynt isafswm o 6 pwynt angori, ond waeth faint sydd, rhaid eu defnyddio i gyd. Os mai ar laswellt neu arwyneb meddal arall y caiff ei osod, rhaid i'r gweithredwr ddefnyddio stanciau metel o 16mm o ddiamedr na 380mm o hyd. Os ar arwyneb caled lle nad oes modd defnyddio stanciau, rhaid gosod pwysau o 163kg wrth bob pwynt angori. O bryd i'w gilydd yn ystod y digwyddiad, gwiriwch fod yr holl angorfeydd yn dal yn sownd.

## A oes digon o fatiau diogelwch?

Dylid cael matiau diogelwch ar y ddaear ar draws pob mynedfa neu doriad yn waliau'r tegan gwynt os mai ar arwyneb caled y mae. Efallai na fydd angen hyn ar dir meddal. Ni ddylai'r matiau fod yn fwy na 50mm o drwch a dylent orchuddio'r tir cyfan lle mae agoriad yn waliau'r tegan gwynt, a hyd at bellter o 1.2m.

## Faint o ddefnyddwyr gaiff fod yno ar yr un pryd?

Gwelir nifer y defnyddwyr a ganiateir wedi ei ysgrifennu neu ei argraffu ar y tegan gwynt ac yn y daflen gyfarwyddiadau os cawsoch un. Gwnewch yn siŵr na fydd mwy na'r nifer hwn ar unrhyw adeg.

## A wyf wedi gwneud darpariaeth am oruchwyllo trwy'r adeg?

Unwaith i'r gweithredwr adael eich tŷ neu'r digwyddiad, chi sydd yn gyfrifol ac yn atebol am ddiogelwch pob defnyddiwr. Gwnewch yn siŵr fod pob goruchwylwr wedi derbyn cyfarwyddyd. Yr ydym yn argymhell i oruchwylwyr ddefnyddio chwiban i dynnu sylw eraill os cyfyd argyfwng. Dylid dweud wrth ddefnyddwyr beth yw rheolau'r chwarae a defnydd diogel cyn iddynt gychwyn defnyddio. Argymhellir goruchwyllo bob amser, oherwydd bod diffyg goruchwyllo digonol yn achosi llawer o ddamweiniau ar deganau gwynt.

## A wnaeth y gweithredwr wneud gwiriad terfynol ar y cyfarpar ac a yw wedi esbonio popeth i chi?

Mae'n bwysig er mwyn diogelwch defnyddwyr eich bod yn talu sylw i'r cyfarwyddiadau terfynol hyn a ddylai bod wedi cynnwys beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le. Efallai y daw'r angorfeydd yn rhydd, neu y bydd y tegan gwynt yn symud, y gwynt yn codi, neu'r pwysedd mewnol yn gostwng. Cadwch rif ffôn y gweithredwr wrth law fel y gallwch gael help yn sydyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol

**Dolenni gwybodaeth defnyddiol - [pipa.org](http://pipa.org).**

**Cestyll bownsio a theganau gwynt eraill : [cyngor ar ddiogelwch hse.gov.uk](http://cyngor-ar-ddiogelwch-hse.gov.uk)**

**Canllaw i logi cestyll bownsio a theganau gwynt yn ddiogel - ADIPS Polisi Preifatrwydd Cwmnïau Ilogi cestyll bownsio yng Nghynghrair Llogwyr Teganau Gwynt Prydain ([biha.org.uk](http://biha.org.uk))**

## Diolchiadau

Rhoddyd y wybodaeth yn y daflen hon ynghyd o wybodaeth a ddarparwyd gan [bouncesafe.org.uk](http://bouncesafe.org.uk)